
# Lansio *Eglwys y Bobl*



Y cyfranwyr gyda'u copïau o'r gyfrol

Ar noson aeafol ganol Tachwedd braf fu croesawu dros 50 o bobl i Athrofa Sant Padarn yn Llandaf, Caerdydd, ar gyfer lansio *Eglwys y Bobl*, sef cyfrol newydd o fyfyrdodau Beiblaidd ar gyfer pob un Sul o'r flwyddyn. Canlyniad cydweithio rhwng yr Athrofa a Chyngor yr Ysgolion Sul yw'r gyfrol, sy'n cynnwys 67 o fyfyrdodau a darlleniadau, a hynny yn Gymraeg a Saesneg. Mae'n addas i bawb sy'n arwain gwasanaethau mewn capeli ac eglwysi, ac yn arbennig mewn gwasanaethau dwyieithog.







Aled Davies yn cyflwyno copi o'r gyfrol i Manon Ceridwen James

Paratowyd y myfyrdodau'n wreiddiol gan nifer o glerigwyr ar hyd a lled Cymru, mewn project a drefnwyd gan Manon Ceridwen James ac Angharad Gaylard o Athrofa Sant Padarn. Wedi derbyn y myfyrdodau, rhai yn Gymraeg a rhai yn Saesneg, aeth Mair Jones Parry ati wedyn ar ran Cyhoeddiadau'r Gair i gyfieithu'r cynnwys, er mwyn sicrhau bod pob myfyrdod ar gael yn y ddwy iaith.

Cafwyd croeso cynnes yn yr Athrofa, gyda digon o luniaeth a gwin, a chyfle i sgwrsio a thrafod. Braf hefyd oedd gweld cynifer o'r cyfranwyr wedi gwneud ymdrech i fod yno, gyda nifer ohonynt yn dweud mai hwn oedd y tro cyntaf iddynt gael eu henwau mewn llyfr.

Estynnwyd croeso i bawb gan Manon, ac aed ati i lansio'r gyfrol, gydag Aled Davies yn cyflwyno copi i'r Athrofa, drwy law Manon, a hefyd i Ffion, sy'n gweithio i'r Athrofa, oedd yn derbyn copi ar ran ei mam yng nghyfraith, sef Mair Jones Parry o Ros-lan yn Eifionydd, cyfieithydd y gyfrol. Roedd hwn yn gyd-ddigwyddiad ffodus iawn, a braf oedd gweld Mair yn ymuno drwy Zoom, ac yn dyst i Ffion yn derbyn y copi ar ei rhan.

Cafwyd gair o werthfawrogiad am y gwaith gan Rheinallt Thomas ar ran y wasg, a chan Jeremy Duff, cyfarwyddwr yr Athrofa.

Bellach, mae'r gyfrol ar gael yn eich siop Gymraeg leol neu ar gwales.com. Mae modd prynu'r llyfr hefyd fel e-lyfr ar wefan www.ysgolsul.com. Mae'n gyfrol swmpus, maint A4, ac yn fargen am £13.99. Bwriedir cyhoeddi cyfrol gyffelyb ymhen y flwyddyn, gan mai dilyn blwyddyn A o'r Llithiadur y mae *Eglwys y Bobl* yn ei wneud.